**Pleidleisiau a Thrafodion** Dydd Mercher, 3 Mai 2006

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm

Eitem 1 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf, tynnwyd cwestiynau 1 ac 8 yn ôl.**

......................................

2.49pm

Eitem 2 - Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf, tynnwyd cwestiwn 12 yn ôl.**

......................................

3.21pm

Eitem 3 - Cwestiynau i Andrew Davies, Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf, tynnwyd cwestiynau 1 ac 8 yn ôl.

......................................

3.53pm

Eitem 4 – Cwestiynau i Jane Hutt, Trefnydd am ei chyfrifoldebau heblaw Busnes y Cynulliad

Gofynnwyd yr holl gwestiynau ac eithrio cwestiynau 7 ac 13.

......................................

**4.18pm**

Cwestiwn Brys

**Alun Ffred Jones (Caernarfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y colledion swyddi arfaethedig yn Krupps Camford Pressings, Llanelli**

**......................................**

4.31pm

**Eitem 5 - Datganiad Busnes Drafft**

Cytunwyd ar y Datganiad Busnes

**......................................**

Gan nad oedd digon o amser i drafod gweddill y busnes, cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.21 (ii) i ymestyn y cyfarfod tan 6.30pm.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol**

O blaid 36; Ymatal 0; Yn erbyn 8; Cyfanswm 44

Derbyniwyd y cynnig trefniadol

**4.41pm**

Eitem 6 – Datganiad:  Adroddiad ar Ddiogelu Plant sy’n Agored i Niwed

**......................................**

**5.18pm**

Eitem 7 – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3001 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir dan Adrannau 19 i 21 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Derbyniwyd y cynnig**

.....................................

*Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond i bleidleisio arnynt ar wahân:* - TYNNWYD YN ÔL

Eitem 8 – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006

**NDM3002 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

**NDM3003 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2006.

**......................................**

Eitem 9 – Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006 – TYNNWYD YN ÔL

NDM3004 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

**NDM3005 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

**......................................**

## 5.21pm

Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth

Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM2990 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006;
(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006.

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru)2006 yn cael ei wneud yn unol ag:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006;
(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

.......................................

5.23pm

Eitem 11 – Dadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 gan Alun Ffred Jones

**NDM2986 Alun Ffred Jones (Caernarfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 31.2:

Yn cefnogi mewn egwyddor ddeddfwriaeth i gyflwyno gorchymyn datblygu a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol i gynnwys asesiadau effaith adwerthu gyda cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau adwerthu gydag arwynebedd llawr o dros 1,000 metr sgwâr, ac i'r asesiadau hynny gael eu paratoi gan berson annibynnol a ddewisir trwy gytundeb y ceisydd a'r awdurdod cynllunio lleol.

*Mae datganiad o bwerau cyfreithiol a fyddai'n caniatáu'r ddeddfwriaeth a gynigir, ac arwydd o'r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill er mwyn helaethu ar y cynnig, fel a ganlyn:*

**Datganiad o bwerau cyfreithiol:**

Gellid llunio'r is-ddeddfwriaeth ddrafft dan Adran 62 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd gan Adran 42 Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

Ychydig o oblygiadau o ran adnoddau a ddisgwylir. Bydd y darpariaethau hyn yn golygu rhywfaint o waith ychwanegol i awdurdodau cynllunio, ond y ceiswyr fydd yn talu'r gost o gomisiynu asesiadau.

**Deunydd Cefndir:**

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynyddu gallu awdurdodau cynllunio i gyflawni amcanion a gynhwysir yn y ddogfen, 'Polisi Cynllunio Cymru', sy'n cynnwys: sicrhau darpariaeth adwerthu gystadleuol i bob cymuned; a gwneud canol trefi, rhanbarthau, ardaloedd a phentrefi yn fwy bywiog, yn fwy deniadol ac yn fwy hyfyw.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**Gwelliant 1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
Dylai'r gorchymyn datblygu ei gwneud hi'n ofynnol bod yr asesiad effaith adwerthu yn ystyried yr effaith ar adwerthu cyffredinol mewn canol trefi, nid dim ond adwerthu bwyd, a dylai hefyd gynnwys asesiad llawn o unrhyw effaith bosibl ar yr amgylchedd.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
Dylai'r gorchymyn datblygu hefyd ei gwneud hi'n ofynnol cael asesiadau effaith adwerthu ac amgylcheddol cyffredinol pan fydd datblygiadau adwerthu dros 100 metr sgwâr yn ychwanegu llawr mesanïn.

**Gwelliant 2**
O Blaid 14; Ymatal 0; Yn erbyn 33; Cyfanswm 47
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Y cynnig**
O Blaid 19; Ymatal 0;Yn erbyn 29; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd y cynnig**

…………………………………

6.00pm

Eitem 12 – Y Ddadl Fer

NDM3000 Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn): Dyfodol Is Swyddfeydd Post yng Nghymru.

…………………………………

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.22pm**

…………………………………

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

2.00pm ddydd Marwth, 9 Mai 2006

E P Silk

Clerc y Cynulliad